**Mae Casgliad y Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, (1947-61/63) a grëwyd gan Age Cymru Dyfed, wedi'i wneud yn bosib diolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.**

**Dyddiad y cyfweliad**: Medi 2025

**Lleoliad**: Llanelli

**Cyfwelydd**: Neil Davies

**Camera**: Hugh Morgan

# <u>Bernard Phillips</u>



**92 oed,**

**Llanelli, Sir Gaerfyrddin,**

**Gwasanaeth Cenedlaethol 1951-1953,**

**Y Gatrawd Gymreig.**

*"Aethom ni fechgyn o Lanelli ar yr un pryd ac arhosodd ni gyda'n gilydd drwy popeth."*

**Methodoleg:** Casglwyd stori Bernard am ei Wasanaeth Cenedlaethol trwy ymweliadiau a cyfweliadau yn ei gatref yn Lanelli. Roedd Bernard yn 92 oed ar adeg yr ymweliad.

Mae'r awdur wedi groeswirio atgofion Bernard gyda ffynonellau gwybodaeth ychwanegol er mwyn cael darlun gwell o profiad Bernard o Gwasanaeth Cenedlaethol yn Yr Gatrawd Gymreig.

Aeth y cyfweliad gyda Bernard cael eu recordio a gallwch chi wylio fo ar-lein yng nghasgliad Bernard Phillips, yng nghasgliad y Gwasanaeth Cenedlaethol yn Archif Cyn-filwyr Gorllewin Cymru.

Mae'r awdur wedi crynhoi rhywfaint o'r sgwrs o'r cyfweliad, lle mae Bernard yn cael ei ddyfynnu yn y naratif hwn.

## Bywyd cyn y Gwasaneth Cenedlaethol

Ganwyd Bernard ar 19 Mawrth 1933 yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin. Mynychodd ysgol leol a gadawodd pan oedd ond yn bedair ar ddeg oed. Yn oedran ifanc iawn, teithiodd Bernard i dref glan môr Bournemouth, Dorset, i weithio mewn gwesty. Gweithiodd yn y gwesty am tua dwy flynedd. Ym 1949, pan gyrhaeddodd un ar bymtheg oed, ymunodd â'r Llynges Fasnachol. Esboniodd Bernard nad oedd llawer o waith yn Ne Cymru y tu allan i'r pyllau glo neu'r gweithfeydd dur, felly roedd llawer o fechgyn ifanc yn ceisio ymuno â'r Llynges Fasnachol.

*"Yn y dyddiau hynny nid oedd llawer o gwmpas yr ardal ma'. Roedden ni'n chwilio am waith. Roedd yn brofiad. Yr unig ffordd y gallech chi fynd dramor oedd naill ai ymuno â'r Llynges Fasnachol neu'r Fyddin. Doeddwn i ddim hyd yn oed yn meddwl am y Fyddin. Yn y dyddiau hynny gallech chi osgoi'r Fyddin (y Gwasanaeth Cenedlaethol) os ymunoch chi â'r Llynges Fasnachol, ond bydd rhaid i chi aros mewn tan eich bod chi'n chwech ar hugain oed. Dyna oedd fy nghariad. Roeddwn i eisiau mynd i'r môr."*

Adroddodd Bernard i ysgol hyfforddi'r Llynges Fasnachol,

*"Es i i ysgol hyfforddi Vindicatrix am chwe wythnos."*

Roedd y TS Vindicatrix yn llong gyda hanes diddorol, a chafodd ei adeiladu ym Mhrydain cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl dwy flynedd ar bymtheg o wasanaeth, cafodd ei gwerthu i'r Almaen. Yn eironig, chafodd e i defnyddio wedyn fel llety i'r Kriegsmarine Almaenig yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl y rhyfel, chipiodd lywodraeth Prydain y llong a'i rhoi i'r Ffederasiwn Llongau.

Yn ystod y 1950au roedd e mewn doc parhaol ar gamlas Sharpness yn Swydd Gaerloyw. Yma, roedd yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi bechgyn ifanc i ddod yn Stiwardiaid yn y Llynges Fasnachol. Oherwydd cynnydd yn y nifer o fechgyn oedd yn ceisio ymuno â'r Llynges Fasnachol, adeiladwyd gwersyll gerllaw a fyddai'n dod yn Ysgol Hyfforddi'r Môr.

Yn dilyn yr hyfforddiant dec-gynorthwywyr, cafodd Bernard swydd gyda llinell longau Union Castle.

*"Roeddwn i ar longau Union Castle i Dde Affrica."*




Cerdyn post yn dangos TS Vindicatrix ac ysgol hyfforddi Môr y Llynges Fasnachol. Yn 16 blwydd oed, gymerodd Bernard chwrs hyfforddi chwe wythnos yma ym 1949.

Delwedd trwy garedigrwydd Worthpoint.com

Roedd llinell Union Castle yn gwmni llongau Prydeinig a oedd yn gweithredu gwasanaethau teithwyr a chargo rhwng Ewrop ac Affrica. Roedd y llwybr o Southampton i Cape Town, yr un ath Bernard ymuno ag, yn llinell gargo a gludai nwyddau a'r Post Brenhinol. Byddai teithwyr a fyddai'n arsylwi'r llongau hyn yn dod i adnabod y lliwiau o'r cregyn Lafant a thwneli du fel liwiau Union Castle.




MV Caernarfon Castle o Linell yr Union Castle. Roedd y llong hon yn cludo'r Post Brenhinol rhwng Southampton a Cape Town, y llwybr hwyliodd Bernard arno. Delwedd trwy garedigrwydd Wikipedia

Cafodd Bernard wybod am y cyflogau uwch oedd ar gynnig i Forwyr Masnachol oedd yn gweithio ar Danceri Olew. Roedd e'n ennill cyflog isel gyda llinell Union Castle, felly penderfynodd geisio gweithio ar y Tanceri:

*"Fe wnes i dair taith i Dde Affrica. Am y daith chwe wythnos roedd fy nghyflog yn ddeg punt a chwe cheiniog. Saith punt a hanner cant y mis roedden ni'n cael ei talu! Yna, ymunais â Thancer BP. Roedd yn bellter hir, ac roeddech chi allan am fisoedd ar y tro."*

Roedd pethau'n edrych yn well ar ddechrau ei yrfa gyda'r tanceri olew. Wrth i amser fynd heibio, daeth Bernard yn fwy profiadol a gwybodus. Er bod y cynnydd mewn enillion yn groesawgar, nid oedd popeth fel yr oedd yn ymddangos:

*"Roedd y tancer cyntaf oeddwn I arno yn ardderchog. Ond ar y tancer nesaf, roeddwn i'n gweithio o chwech y bore, tan ddeg y nos."*

Pan oedd y tanceri wedi docio yn Prydain, roedd Bernard yn awyddus i deithio adref ac ymweld â'i deulu. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn hawdd:

*“Y noson cyn i chi hwylio roedd pawb eisiau mynd adref i weld eu rhieni a'u cariad. Dywedodd y Cogydd wrthyf, 'Mae rhaid i chi weithio tan ddeg heno'. Dywedais nad oeddwn eisiau gweithio heno, oherwydd rwyf eisiau mynd adref i weld fy rhieni. 'O, mae'n rhaid i chi', meddai. Wel, gallwn wneud gyda'r goramser, dywedais. 'O, dydyn ni ddim yn gwneud goramser ar y llong hon' meddai”.*

Roedd y sgwrs hon yn foment drobwynt i Bernard.

*“Un awr ar bymtheg y dydd. Dim goramser. Yn y dyddiau hynny, roedden nhw'n arfer eich trin chi fel rwbish. Felly, cerddais i ffwrdd. Roeddwn i tua dwy ar bymtheg ar y pryd.”*

Ar ôl penderfynu gadael y Llynges Fasnachol, dychwelodd Bernard i fyw gyda'i deulu yn Llanelli. Erbyn hyn roedd bron yn ddeunaw oed ac yn tueddol i orfod mynd i'r fyddin ar gyfer Gwasanaeth Cenedlaethol. Yn fuan, byddai datblygiad arwyddocaol arall ym mywyd ifanc Bernard.

*“Treuliais ddeunaw mis yn y Llynges Fasnachol ac yna cefais fy ngalw i wneud dwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol. Tua thri mis ar ôl eich pen-blwydd yn ddeunaw oed, cawsoch eich galw lan i'r Gwasanaeth Cenedlaethol.”*

Yn 1951, cafodd dynion nad oeddent yn ddarostyngedig i'r amodau eithriad cyfyngedig eu ‘galw’ i ymgymryd â Gwasanaeth Cenedlaethol gorfodol. Rhoddwyd dewis i rai pa gangen o'r lluoedd arfog y hoffwn i ymuno. Fodd bynnag, cafodd llawer eu gorchymyn i gangen benodol ac yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyn yn golygu'r Fyddin.


*“Ceisiais ymuno â'r Llynges ond na, ni fyddent yn fy nerbyn. Aethoch lle bynnag y byddent yn eich rhoi.”*

## **<u>Gwasanaeth Cenedlaethol</u>**

Aeth Bernard i'r swyddfa Gwasanaeth Cenedlaethol agosaf iddo, a oedd yn Abertawe. Cafodd archwiliad meddygol a chafodd ei basio'n addas i wasanaethu. Gan gyfeirio at ei brofiad yn y Llynges Fasnachol, gofynnodd Bernard am gwblhau ei wasanaeth yn y Llynges Frenhinol. Fel eglurodd, gwnaeth gofiniad Bernard cael eu gwrthodwyd, ac ymunodd â'r Fyddin Brydeinig.

Yn ffodus, ni fyddai ar ben ei hun. Mewn tro rhyfeddol o ddigwyddiadau, cafodd nifer o fechgyn oedd e’n hadnabod o ardal Llanelli gael ei gonsgriptio I’r fyddin ar yr un pryd. Ynghyd â Bernard, cafodd y bechgyn o Lanelli eu cyfeirio i’r Gatrawd Cymreig (Welch Regiment). Dros y ddwy flynedd nesaf byddai'r grŵp o filwyr ifanc hwn aros gyda'i gilydd.

*"Roedd tua hanner dwsin o ni o Lanelli. Roeddwn i'n nabod rhai ohonyn nhw ond wrth gwrs, daethom i gyd I nabod ein gilydd. Pan wnaethoch chi eich hyfforddiant sylfaenol, aeth rhai i gwmni'r Pioneer, ond arhosodd y rhan fwyaf ohonom gyda'n gilydd."*






2

SOLDIER'S NAME AND PARTICULARS

| First Names (in full) | Surname (BLOCK LETTERS) | |
|---|---|---|
| Bernard | PHILLIPS | |
| Army Number | Date of Birth | Marital Status |
| 22491855 | 19.3.33 | M ~~Single~~ |
| Main Civil Occupation | Religious Denomination | |
| Merchant Seaman Waiter | Baptist | |

joined at Brecon on 7 June 51.

For the: ~~Regular Army/Supplementary Reserve~~ Territorial Army/Army ~~Reserve Section D~~/National Service (Strike out as necessary) for 2 years with the colours and 3½ years in the T.A.

Date 7.6.51 B. Phillips Signature of Soldier

Extended/ Re-engaged to complete.................years with the colours on.................

Description (a) on joining (b) on attaining the age of 21 years.

| | Height ft. | Height ins. | Weight lbs. | Chest (max.) ins. | Complexion | Eyes | Hair |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (a) | 5 | 6 | 144 | 36 | Fresh | Hazel | Fair |
| (b) | | | | | | | |

Other Distinctive Marks
(a)
(b)

51/11 NHS.

Mae llyfr cofnodion y fyddin Bernard yn ddangos wnaeth o ymuno â'r fyddin yn Aberhonddu ar 7 fed o Mehefin 1951.

Ymunodd Bernard a'r bechgyn o Lanelli â chatrawd troedfilwyr Cymreig gyda hanes balch, yn dyddio'n ôl i 1861. Roedd milwyr o'r 'Welch' wedi gwasanaethu yn ail ryfel De Affrica, ac yn y ddau ryfel byd. Yn 1951 roedd y gatrawd wedi'i lleoli yn Colchester, Essex, ond roedd wedi cael rhybudd i baratoi ar gyfer gwasanaeth dramor. Roedd y llwybr i ryfel i Bernard a bechgyn Llanelli wedi'i osod, a oedd wedi'u tynghedu i fynd i mewn i wrthdaro filltiroedd i ffwrdd o gartref yn Sir Gaerfyrddin. Erbyn i'r bechgyn orffen hyfforddi, byddai'r gatrawd eisoes yn Corea.

*"Yn y dyddiau hynny roedd gennych chi Gatrawd y Welch, yr Cyffinwyr De Cymru a'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru. Nhw oedd y tair prif gatrawd Gymreig."*

Cyn ymuno â'r gatrawd, roedd rhaid i Bernard a'i ffrindiau ddysgu hanfodion milwra. Roedd hyn yn golygu cymryd cwrs hyfforddi recriwtiaid dros chwe wythnos ar gyfer ymgeiswyr Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru yn Aberhonddu, Powys. Cynhaliwyd y cwrs ym mis Gorffennaf ac Awst 1951. Ar ôl i'r chwe wythnos gychwynnol o hyfforddiant sylfaenol ddod i ben, arhosodd y bechgyn yn Aberhonddu a dechrau cyfnod arall o hyfforddiant. Cynlluniwyd hyn oedd I troi'r ddynion ifanc mewn I troed filwyr a'u paratoi i fynd mewn i faes rhyfel Corea.

Mae gan Bernard rai atgofion o'r cyfnod hwn:

*"Roedd hi'n anodd yn y dyddiau hynny. Byse chi'n gwneud eich hyfforddiant sylfaenol a phan wnaethon ni'r hyfforddiant i paratoi am Corea roedd rhaid i ni gorymdaith yn ei'n cit llawn. Gorymdaith llwybr ugain, tri deg milltir bob dydd. Roedden ni'n arfer mynd allan i'r maes. Roedd lle o'r enw maes saethu Cwm Gwdi. Bydden ni'n treulio cwpl o nosweithiau allan yna. Byddech chi'n gwersylla yna ac wneud pob math o bethau. Y mynydd, Pen-y-fan, roedden ni'n arfer cysgu allan ar ben hwnnw hefyd."*

Mae hefyd yn cofio'r arfau yr oedd y milwyr wedi'u hyfforddi i'w defnyddio:

*"Y .303 (reiffl) oedd y prif un, yna'r hen gwn Sten a'r gwn Bren."*

Defnyddiodd y Fyddin y bryn 'Allt Du' ar faes saethu milwrol Cwm Gwdi ger Aberhonddu ar gyfer ymarfer morter.

*"…a'r morterau dwy fodfedd. Yn y dyffryn ar waelod Pen y Fan. Roedd ganddyn nhw cwpl o gytiau Nissan, lle byddem ni'n aros yn y nos weithiau."*

Mae yna atgof penodol mae Bernard yn ei gofio o wersylla allan…

*"Roeddwn i'n cysgu un noson, a sylweddolais fy mod i'n agos at yr ymyl. Pe bawn i wedi rholio drosodd, byddwn i dros (ymyl) y mynydd. Roedd hi'n dywyll bryd hynny, wnes i ddim sylweddoli!"*

Yn y cyfamser, roedd y Gatrawd Gymreig wedi cyrraedd Corea ym mis Tachwedd 1951. Roedd y gatrawd ar waith yn fuan. O ganlyniad, nid chymerodd lawer o amser cyn bod angen milwyr newydd.

*"Ym mis Awst roedden ni'n gwybod ein bod ni'n mynd i Corea. Roedd Y Gatrawd Gymreig eisoes yng Nghorea, felly beth roedden ni'n wneud oedd paratoi i orchuddio'r rhai a anafwyd a'r rhai a laddwyd. Roedden ni'n ffurfio'r bataliwn trwy filwyr newydd."*

Roedd y recriwtiaid newydd yn ymwybodol o'r rhyfel parhaus yng Nghorea a'u bod nhw'n mynd mewn i wlad beryglus. Fe wnaethon nhw fabwysiadu agwedd pragmatig:

*"Doedd gennych chi ddim dewis, roedd rhaid i chi'i wneud. Gwasanaeth Cenedlaethol oedd e."*

Roedd rhieni Bernard yn naturiol yn bryderus ond unwaith eto, amser hynny roedd pragmatiaeth ymhlith y boblogaeth ynglŷn â gwasanaethu eich gwlad a'r hyn yr oedd yn ei olygu. Roedd traddodiad o wasanaeth milwrol yn deulu Bernard:

"*Wel, roedd fy nhad yn Dunkirk a glaniad D-Day gyda'r Peirianwyr Brenhinol. Roedd fy mrawd yn y Llynges Frenhinol yn ystod y rhyfel a fy mrawd arall yn y Llynges Fasnachol yn ystod y rhyfel."*

**<u>Gwasanaeth dramor</u>**

Yn y 1950au roedd gan Brydain lawer o ymrwymiadau dramor. Roedd milwyr wedi'u lleoli mewn sawl gwlad ymhell ac agos. Roedd 12,000 o filwyr yng Nghorea yn unig. Roedd hyn cyn dyddiau teithio awyr eang. Roedd technoleg symud personel yn yr awyr dal i fod yn ei dyddiau cynnar, felly digwyddodd nifer fawr o symudiadau milwyr ar y môr. Llongau masnach a gymerodd y straen. O ystyried ei amser yn y Llynges Fasnachol, mae Bernard yn cydnabod yr eironi:

*"Ym mis Hydref hwyliom allan i Hong Cong o Southampton. Aethom ar long filwyr. Roeddwn i yn y Llynges Fasnachol am flwyddyn a hanner ac es i ar dair llong. Roeddwn i yn y Fyddin am ddwy flynedd ac es i ar bum llong!"*

Nid oedd y fordaith o Southampton yn uniongyrchol i Corea ond drwy drefedigaeth goron Prydain, Hong Cong. Roedd Hong Cong yn lleoliad strategol ac yn ganolfan masnach ryngwladol bwysig, a werthfawrogwyd yn fawr gan lywodraethau Prydain olynol. O ganlyniad, roedd gan Hong Cong bresenoldeb mawr o milwrol Prydeinig. Cynhaliodd y Fyddin garsiwn parhaol, i amddiffyn y ffiniau a chefnogi cynnal cyfraith a threfn. Roedd Hong Cong yn fan aros naturiol i longau milwyr yn mynd i ac o Dde-ddwyrain Asia.

Mae Bernard yn cofio'r fordaith yn dda.

*"Cymerodd tua phum wythnos. Galwon ni yn Columbo, aethon ni drwy gamlas Suez, a chafodd caniatad I nil fynd i'r lan yn Singapôr"*



Bernard, yn sefyll ar y dde, gyda ffrind ar fwrdd llong filwyr.

**Hong Cong**

Gwnaeth Hong Cong argraff gadarnhaol ar Bernard.

*"Roedd Hong Cong yn lle hyfryd. Roedd gennych chi ynys Hong Cong ac yna beth alwasant yn 'diriogaethau newydd'. Rhoddwyd rhain i'r DU gan y Tsieineaid ond byddent yn mynd yn ôl i Tsieina yn y pen draw ym 1998. Y stori ddoniol am hynny oedd fy mod i'n cofio dweud byddai siwr a fod fyddai'n isel y m'hen erbyn hynny. Ond rydw i dal yma!"*

Unwaith iddyn nhw lanio, ymgyfarwyddodd y Milwyr Cenedlaethol â chyfadeilad milwrol enfawr Prydain ac ymgartrefu yn eu cartref dros dro. Cawsant eu baricsio ger ffin Tsieina mewn cytiau Nissan, ymhlith pebyll ac amrywiol o adeiladau eraill a oedd yn gartref i'r nifer enfawr o bersonel ac offer.



Bernard wedi'i wisgo'n smart yn ei wisg ryfel orau ac yn sefyll am lun y tu allan i lety'r milwr yn Hong Cong. Tynnwyd y llun hwn ym 1952.

Gadawodd maint y gwersyll a nifer fawr personel milwrol Prydain atgofion parhaol:

*"Rhaid bod tua saith bataliwn allan yna i gyd. Roedden ni'n hyfforddi drwy'r amser. Roedd yn ardal eithaf mawr."*

Trodd pethau i waeredi Bernard, pan aeth yn sâl. Roedd y driniaeth a'r ôl-ofal a gafodd yn llai na thrawiadol. Mae Bernard yn egluro beth ddigwyddodd yn y bennod anodd hon:

"*Rwy'n cofio pan gefais fy apendics allan. Ar y pryd, os oeddech chi'n adrodd eich bod chi'n sâl, roedd rhaid i chi wisgo'ch gwisg frwydr orau (BD). Gan fod y BD mor craflyd, roedden ni'n arfer gwisgo ein KD (gwisg gotwm).*

*Roeddwn i yn y platŵn gwrth-danciau, roedden ni'n glanhau'r gynnau ac roedd gen i staen ar fy nillad. Pan oeddwn i wedi adrodd eich bod fi'n sâl, dywedon nhw fy mod i wedi bod allan ar y gwrw neithiwr, ond dywedais i nad oeddwn i'n feddw ond fy mod i'n bwriadu cael ychydig o ddiodydd heno oherwydd mai Dydd Gŵyl Dewi oedd hi*. Doedden nhw ddim yn talu sylw, ond roeddwn i'n gwybod bod rhywbeth o'i le.*

*Dywedodd y meddyg i fi fynd yn ôl i'r gwersyll. Beth bynnag, cwympais yn swp ar y lawr ar y maes parêd. Fe wnaethon nhw fy rhuthro i'r ysbyty a'm llawdriniaeth ar unwaith. Roeddwn i yno am bum neu chwe diwrnod. Dywedon nhw bydden nhw'n mynd â fi yn ôl i'r gwersyll a oedd tua ugain milltir i ffwrdd.*

*Roeddwn i newydd gael fy apendics allan ac roedd yn beth mawr. Aethon nhw â fi ddwy filltir ac yna dywedon nhw wrtha i fynd allan a dod o hyd i'ch ffordd eich hun yn ôl. Rhoddodd y dyn yma lifft i mi, ond pan welodd fi (yn gwisgo y gwisg KD gyda staen) dywedodd fy mod i'n warth i Fyddin Prydain yn mynd allan fel 'na. Gofynnodd i mi ble roeddwn i wedi bod, a dywedais i fy mod i newydd ddod allan o'r ysbyty ar ôl cael fy apendics allan. Newidiodd yn llwyr wedyn. Aeth allan o'i ffordd, aeth â mi yn syth yn ôl i'r gwersyll ac aeth i mewn a gwneud cwyn. Dywedodd y dylai'r dyn yma fod wedi cael cludiant yn ôl."*

*Mae hyn yn dyddio'r bennod hon yn gywir i ddydd Sadwrn Mawrth 1af, 1952.

Rhoddodd y salwch gyfle i Bernard aros yng nghyd-destun diogelwch cymharol Hong Cong, yn hytrach na theithio i Corea, ond roedd wedi'i wneud o ddeunydd mwy llym.

"*Gallwn i wedi osgoi mynd i Corea, oherwydd dim ond deg diwrnod ar ôl cael fy llawdriniaeth yr oeddwn ar fy ffordd i Corea. Dywedais fy mod yn iawn i fynd."*

Felly, tua Mawrth 10fed 1952, hwyliodd Bernard a'i gymdeithion. Roedd y daith yn gymharol fyr, ond roedd syndod arall ar y gweill pan gyrhaeddon nhw Korea.



Bernard - yn y llun ar y dde eithaf - gyda'i gyfeillion yn y platŵn gwrth-danciau, yn sefyll gydag un o gynnau magnelau 17 pwys y gatrawd.

**Corea**

Dociodd y longau milwyr yng Nghorea ym mhorthladd prysur deheuol Busan. Byddai'r milwyr yn glanio ac yn adrodd i ganolfan symudiadau Byddin Prydain. Yma, cawsant eu dyrannu cludiant yn ôl eu gorchmynion, cyn cael eu hanfon i wahanol gyrchfannau ledled y wlad. Adroddodd Bernard a'i gymdeithion yn ôl y cyfarwyddyd. Fodd bynnag, newidiodd tro annisgwyl mewn digwyddiadau eu taith:

*"Pan gyrhaeddon ni Corea, wnaeth nhw sylweddoli ein bod ni'n rhy ifanc. Felly, hanfonodd nhw ni gyd draw i Siapan i wneud yr hyfforddiant brwydro. Roedd tua deg ar hugain ohonom. Roedden ni i gyd yn rhan o'r Gwasanaeth Cenedlaethol. Yn y dyddiau hynny, roedd rhaid i chi fod yn bedair ar bymtheg oed cyn iddyn nhw eich anfon i'r rheng flaen."*

**Siapan**

Mewn rhai ffyrdd, roedd hon yn daith ychwanegol ac yn rhoi cyfle i Bernard a'r bechgyn brofi gwlad arall. Roedd yn anrheg annisgwyl. Gwnaethon nhw'r gorau ohoni, gan ymweld â Hiroshima ar ei hanterth.

*"Pan gyrhaeddon ni yno, rhoddon nhw ddau Yen i ni. Aethon ni i le o'r enw Kure. Roedd yr ysgol hyfforddi brwydro yno, ger Hiroshima. Felly, aethon ni yno (Hiroshima) am y noson. Roedden nhw'n dechrau ailadeiladu'r lle.*"

Mae Bernard yn cofio digwyddiad doniol, sy'n dal i ddod â gwên. Digwyddodd mewn bar…

*"Wnaeth ni rhedeg allan o arian. Yn y dyddiau hynny, roedd gennym ni rywbeth o'r enw arian BAFF, y gallech chi ei ddefnyddio yn y gwersyll. Dywedodd ffrind I 'Does gennym ni ddim arian ar*

*ôl ond mae gen i arian BAFF yma.' Felly, aeth at y dyn hwn y tu ôl i'r bar a dweud 'Does gen i ddim Yen, mae gen i BAFF. Os cymerwch chi BAFF, prynaf i ddiod. Ie?' Yna, dywedodd y dyn (mewn acen Americanaidd eang) 'Wel, dydw i ddim yn gwybod beth rydych chi'n siarad amdano!'*

Roedd Bernard yn hoffi Siapan ac roedd yn gobeithio dychwelyd tô pan fyddai ganddo wyliau.

*"Pan oeddech chi yng Nghorea, roeddech chi'n arfer cael pum diwrnod o wyliau R&R. Bydden nhw'n hedfan chi draw i Tokyo am bump diwrnod. Ond beth ddigwyddodd, doedd gan fy ffrind Tom o Lanelli ddim digon o arian. Roeddwn i fod fynd i Tokyo a roeddwn i erioed wedi hedfan yn fy mywyd- o'n i'n edrych ymlaen ato! Felly, gofynnais a allwn i aros a mynd yr wythnos ganlynol, pryd bydd y ddau o ni gallu fynd gyda'n gilydd. Ond fe wnaethon nhw ei ganslo ar gyfer y bataliwn, felly collais i allan!"*

**<u>Dychweliad nol i Corea</u>**

Ym mis Mawrth 1952, roedd y rhyfel yng Nghorea wedi cyrraedd sefyllfa o methmat. Sefydlwyd y ffrynt ar hyd llinell lydan yn gwahanu rhannau gogleddol a deheuol Corea, a ddaeth yn adnabyddus fel y 38ain paralel. Roedd y llinell derfyn hon yn rhedeg o afon Imjin yn y gorllewin i dref YangYang ar arfordir y dwyrain. Wynebodd y ddwy Fyddin ei gilydd. Gogledd Corea Gomiwnyddol, gyda chefnogaeth Tsieina a'r Undeb Sofietaidd, yn erbyn lluoedd cyfunol De Corea a'i chynghreiriaid gorllewinol.

Parhaodd yr ymladd a ddechreuodd ym mis Mehefin 1950, ar hyd system sefydledig o ffosydd. Roedd yn amgylchedd peryglus ac anodd, a oedd yn debyg i amodau yn Ewrop yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd milwyr gwrthwynebol yn agos at ei gilydd, gyda thân magnelau a morter yn glanio ar ddwy ochr y llinell.

Glaniodd Y Gatrawd Gymreig yn Busan yn mis Tachwedd 1951, dan arweiniad masgot y bataliwn, Gafr o'r enw 'Taffy 9'. Roedd cryfder y bataliwn yn 746 o filwyr, dan arweiniad 38 o swyddogion. Ymunodd y gatrawd a'r Chyffinwyr De Cymru a'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, i ffurfio 29ain brigâd troedfilwyr 'Brydeinig'. O fewn dyddiau o chyrhaeddiad, roedd y bataliwn wedi symud i fyny at y llinell. Beth dilynodd hynny oedd gyfnod oer iawn, gyda'r milwyr Cymreig yn gorfod cynnal systemau ffosydd helaeth ac anfon patrolau nosol, dros fisoedd rhewllyd y gaeaf.




Mae'r map hwn yn dangos safleoedd daearyddol penrhyn Corea. Mae Busan, lle glaniodd Bernard ym 1952, ar arfordir de-orllewin De Corea.

Delwedd trwy garedigrwydd Dreamscape

Ar ôl cwblhau hyfforddiant ysgol frwydro yn Kore, gwnaeth yr Milwyr Cenedlaethol gadael Siapan ar llong milwyr am Corea, lle unwaith eto glaniodd nhw yn Busan. Er gwaethaf prysurdeb y broses, llwyddodd Bernard I ffeindio'r amser I cael "dip"…

*"Rwy'n cofio o'n I wastad yn nofio, ac roedd yna iâ ar yr ochr. Roeddwn i allan yn nofio yn y môr. Roeddwn i'n arfer nofio llawer. Rwy'n cofio pan oedden ni ar y rheng flaen, fe wnaethon nhw adael i mi nofio yn yr Imjin (afon)."*

Y tro hwn, doedd yna unrhyw oedi, a chludwyd y grŵp i ogledd y wlad, lle roedd y gatrawd wedi'i lleoli.

*"Pan droddom ni'n bedair ar bymtheg, cawsom ganiatâd i fynd i fyny'r rheng flaen. Felly, roedden ni ar y rheng flaen, ac roedden ni yno wedyn tan fis Hydref/Tachwedd, dwi'n meddwl. Roeddwn i rhan o'r cwmni Cymorth, ar y gwn gwrth-danc. Ond yng Nghorea, ni allent fynd â'r gwn gwrth-danc i fyny'r mynydd. Felly, aethom i mewn i blatŵn bach."*

Wedi'u harfau gyda arf eu hunain, dysgodd Bernard a'r bechgyn am y drefn.

*"Roedd gan bawb eu reiffl eu hunain (.303) ac roedd hwnnw gyda chi ble bynnag chi'n mynd. Roedd rhaid i chi ei gadw'n lân. Hyd yn oed os oeddech chi wedi bod ar batrôl yn y nos, roedd rhaid i chi olchi, eillio a glanhau eich reiffl bob bore. Byddai'r Corporal neu'r Rhingyll yn gwirio ac roedden nhw'n llym iawn.*

*Pan ewch chi i fyny'r rheng flaen, byddech chi'n mynd i fyny am dri mis ac yna'n dod yn ôl am fis o orffwys. Bydden nhw'n cylchdroi'r cwmnïau, ond dim ond platŵn bach oedden ni, rhyngom ni'r ddau. Ar y rheng flaen roedd yn ddwy awr ymlaen, dwy awr i ffwrdd."*

Roedd y tir yn anodd, ac roedd rhaid i'r milwyr lywio systemau ffosydd. Roedden nhw'n byw mewn Bynceri.

*"Roedd yna ffosydd drwy'r bryniau. Roedd yn debyg iawn i'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd gennych chi dir neb rhyngddynt ac, yn ystod y dydd, gallech chi weld o. Roedden ni'n arfer adeiladu bynceri ar ochr arall y bryn, ac roedden ni arfer yn cysgu yn y bynceri hyn."*

Roedd yr amodau'n llym, ond arhosodd y milwyr Cymreig yn diysgog a chanfod hiwmor yn eu sefyllfa.

*"Bydde gennych chi fyncer, a bydd ni'n wneud ein gwelyau ein hunain gyda cheblau. Helmed (dur) oedd y basn golchi, cannwyll oedd y golau, sach hen oedd y llen ac roedd twll bach i tynnu i mewn ac allan. Os oeddech chi'n mynd allan ar batrôl yn y nos, roedd chi wedyn yn cael cael pedair awr o gwsg. Bydde mêt I'n dweud wrtha i 'cyn i chi ddod i'r gwely tynnwch y llenni, diffoddwch y golau a gwagiwch y basn golchi!'"*

Roedd y tasgau mwy sylfaenol hefyd yn anodd mewn amodau gwael…

*"Roedd llygod mawr yn y llefoedd hwn. Doedd dim llawer o hylendid. Roedd rhaid i ni gario'r dŵr o'r ffynnon mewn caniau jerry ac i lawr ochr arall y mynydd. Byddai rhai'n dod â'r bwyd i fyny, rhai'r bwledi ac roeddwn i'n arfer gwirfoddoli i ddod â'r dŵr i fyny. Roedden ni'n eithaf heini yn y dyddiau hynny."*



Mae'r ffotograff hwn a gyhoeddwyd gan Amgueddfa Lerpwl yn darlunio safle nodweddiadol o Brydain ar dir uchel yn rhyfel Corea. Roedd Y Gatrawd Cymreig a oedd wedi'i leoli ar fryn 355 mewn safle tebyg.

Llun gwreiddiol trwy garedigrwydd 'Difficulties be dammed' gan Patrick Mileham 2000

Roedd safleoedd Gatrawd Gymreig dan ymosodiad magnelau cyson gan y gelyn.

*"Roedd (yr ymladd) wedi dod i stopio yn swnd fwy neu lai ar y pryd. Roedd y bryn oeddem ni arno yn cael eu galw 355*. Gan fod y fflag yno gyda'r Ddraig Gymreig, roedden nhw (y gelyn) eisiau'r bryn hwnnw. Dyma'r pwynt uchaf yn yr ardal. Ymosodwyd* arnom lawer gwaith. Roedden ni'n gwarchod y bryn hwnnw oherwydd ei fod yn bwysig."

*Yn cael ei adnabod fel 'Gibraltar Fach' ac yn destun sawl brwydr yn ystod y rhyfel.

O'i atgofion, mae Bernard yn credu mai Gogledd Coreaid oedd milwyr y gelyn a oedd yn gwrthwynebu bryn 355.

*"Rwy'n credu bod rhai Tsieineaid yno, ond hyd y gwyddom ni, Gogledd Coreaid oedden nhw."*

Roedd agosrwydd milwyr y gelyn yn bryder arbennig i'r milwyr Cymreig.

*"(Roedden nhw) yn agos iawn. Roedd nhw'n arfer ymosod arnom ni. Roedd ni'n arfer mynd allan yn y nos ar batrôl. Patrôl gwrando oedd ei enw. Gallech chi eu clywed nhw'n siarad. Byddech chi'n mynd allan tua hanner milltir ac os oedden nhw'n mynd i ymosod, bydden nhw'n taro'r patrôl gwrando yn gyntaf. Galwyd pawb allan bryd hynny."*

Mae Bernard yn cofio patrôl benodol a arweiniodd at anafusion…

"Roeddwn i'n gallu clywed nhw (dau filwr y gelyn), ac roeddwn i ar fin taflu grenâd, ond dywedodd y Corporol na, na. Fe wnaeth fy atal rhag gwneud hynny. Beth bynnag, ddau ddiwrnod yn ddiweddarach ymosodwyd arnom, ac roedden nhw (y gelyn) yn gwybod pa lwybr i fynd, oherwydd eu bod nhw wedi dilyn y ddau hyn (milwyr y gelyn yn dangos y llwybr iddyn nhw). Anafwyd dau o fy ffrindiau y noson honno, y ddau o Lanelli. Aethon ni drwy'r Fyddin gyda'n gilydd. Chafodd un eu saethu yn yr ysgwydd, a'r llall yn y goes."

Mae Bernard yn myfyrio ar y weithred benodol hon, gan feddwl, pe bai wedi cael caniatâd i ymgysylltu â'r gelyn ar y patrôl, efallai byddai wedi atal ei ffrindiau rhag cael eu saethu yn yr ymosodiad diweddarach.

*"Dwi bob amser wedi dweud, pe bawn i wedi eu cael nhw………..!"*

Byddai Bernard yn wynebu perygl eto'n fuan iawn. Mae'n cofio wynebu ymosodiad nos.

*"Rwy'n cofio un noson pan oedden nhw'n ymosod arnom ni, roedd ganddo ni giât weiren bigog. Dyna oedd y brif ffordd i mewn. Dywedodd y Swyddog wrthyf 'Phillips, ewch allan yna a chau'r giât'. Codais fy reiffl, ond dywedodd, 'na, fydd dim ei angen arnoch chi'. Felly, roedd rhaid i mi fynd allan I'r giât gyda thanio, cregyn, bomiau, y cyfan. Roeddwn I mewn dipyn o lanast pan ddes i'n ôl."*

Roedd rhain yn amseroedd brawychus, ac nid dim ond pan oedd y safleoedd dan ymosodiad.


*"Roedd yn arw ac yn sŵn ofnadwy, yn ofnadwy. Roedden nhw (Y gelyn) yn arfer chwythu chwibanau, curo caniau gyda'i gilydd a chwythu utgyrn, gan geisio eich dychryn chi. Roeddwn i'n bedair ar bymtheg oed, roedd yn frawychus."*

Chafodd partïon gwaith eu anfon allan yn y nos hefyd.

*"Byddech chi allan yn gosod gwifren bigog yn y nos. Byddai un person o'n blaenau gyda gwn Bren rhag ofn iddyn nhw ymosod arnom ni. Eisteddais ar corff marw un noson. Roedd y cnawd yn cyffwrdd ar fy nhrowsus. Roedd yn ofnadwy. Wnes I taflu nhw allan a rhoddon nhw drowsus newydd i mi."*

Roedd llawer o gyfnodau tawelach ar y rheng flaen ond o ystyried lefel y gweithgaredd gyda phatrolau gwrando ac amddiffyn rhag ymosodiadau gan y lluoedd Comiwnyddol, roedd gan Bernard achos i ddefnyddio ei reiffl .303 ar sawl achlysur. Ar un achlysur roedd mewn ymladdfa danio pan gafodd awyren Americanaidd ei saethu i lawr.

*"Ie, (taniais fy reiffl) sawl noson. Ar un achlysur daeth yr awyren Americanaidd hon draw a saethodd y Coreaid hi â thân arfau bach. Chwalodd yn llwyr."*



Reiffl Lee Enfield .303 – rhyfel Corea. Reiffl personol Bernard. Roedd rhaid iddo ei gynnal a'i gadw'n berffaith.

Gan Koreanwaronline.com

Fel yr eglurodd Bernard yn gynharach, yn bedair ar bymtheg oed, anfonwyd Milwyr Cenedlaethol a milwyr rheolaidd i'r rheng flaen. Yma, cawsant eu hamlygu i dân y gelyn, a oedd yn brofiad trawmatig. Roedd sut y gwnaethon nhw ymdopi yn amrywio.

*"Roedd rhai yn ymdopi'n well nag eraill. Rwy'n cofio pan es i allan yna (ar y rheng flaen), wnaethon nhw rhoi fi gyda hen filwr a oedd wedi bod yno o'r blaen. Roedden nhw'n dweud wrtha i 'O, rwyt ti'n un lwcus, mae gen ti ddyn sy' gyda phrofiad'. Beth bynnag, pan ddechreuon nhw ein peledu ni, bechod roedd y dyn hwn yn eistedd yn y gornel. Roedd yn crynu ac yn crio ac ni allai ei helpu, chi'n weld. Doedden nhw ddim yn gwybod amdano bryd hynny (Anhwylder Straen Ôl-drawmatig)."*

Mae gan Bernard rai atgofion mwy dymunol i feddwl amdanynt o'i amser yng Nghorea...

*"Oherwydd ein bod ni'n blatŵn bach, roedd gennym ni gogyddion Coreaidd, ac roedden nhw'n wych. Roedden ni'n cael bwyd gwell na gweddill y bechgyn. Bydden ni'n cael twrci unwaith neu ddwywaith yr wythnos. Roedden ni'n ffodus iawn. Dim ond un diwrnod yr wythnos roedd rhaid i ni fyw ar ddognau C7. Roedden nhw'n Americanwyr. Byddai gennych chi becyn o tua wyth can a phethau eraill. Ugain o sigarets, te, coffi."*

Atgof da arall I Bernard oedd gweld ei hofrennydd cyntaf.

"*Roedd yn rhywbeth newydd. Roedd rhaid i ni i gyd fynd i'w weld. Dyna pam ges i'r llun."*



Tynnodd un o'r milwyr o'r platŵn gwrth-danciau'r llun hwn o Bernard a'i ffrindiau yn edrych dros hofrennydd 'Sycamore' yr Unol Daleithiau.

Ar ôl dau gylchdro o dri mis ar y rheng flaen, ac yna dau fis o orffwys, roedd cyfnod Bernard yng Nghorea yn dod i ben. Roedd Y Gatrawd Gymreig yn cael ei dynnu'n ôl. Erbyn y 9fed Tachwedd 1952 roedd y bataliwn yn ôl yn Busan. Aeth y milwyr ar long filwyr ar ei ffordd i Hong Cong.

Wrth fyfyrio ar yr wyth mis hynny ar y rheng flaen, mae Bernard yn egluro nad oedd y ddau ddefnydd yn hawdd.

*"Doedd hi ddim yn braf gwneud unrhyw un ohonyn nhw, a dweud y gwir. Yr ail un, roeddech chi'n gwybod beth oedd i ddod."*

Mae hefyd yn onest iawn am ei deimladau.

*"Dydw i ddim am ddweud fy mod i'n arwr. Pan es i gyntaf, roeddwn i filltir y tu ôl i'r rheng flaen fel milwr wrth gefn. Roeddwn i'n meddwl, nid fy mod i eisiau mynd i fyny'r rheng flaen, ond byddwn i wedi'i gasau pe na bawn i wedi gwneud hynny, ti'n wybod? I bod mor agos a pheidio â'i brofi. Er nad oeddwn i eisiau mynd i fyny, rwy'n falch fy mod i wedi mynd i fyny. Pe bawn i wedi mynd mor agos â hynny, byddwn i bob amser wedi difaru (peidio â mynd). Fedra i ddim ei egluro, reli. Nid fy mod i'n bod yn arwr. Rwy'n credu y byddwn i wedi difaru am weddill fy oes."*

Ar ôl i'r gatrawd dynnu'n ôl, dechreuon nhw ar y daith i Hong Cong.

*"Aethon ni i Busan a dyna lle cawsom ein medalau. Aethon ni i'r fynwent i weld y beddau, ac yna aethon ni i Hong Cong. Pan gyrhaeddon ni Hong Cong, cefais wythnos o wyliau oherwydd oeddwn I wedi golli allan ar Tokyo."*

Llwyddodd Bernard i ddefnyddio'r wythnos o wyliau i ymlacio ychydig a gweld ychydig o'r diriogaeth. Yna roedd ganddo weddill ei Wasanaeth Cenedlaethol i'w gwblhau, a fyddai i gyd yn Hong Cong.

*“Pan gyrhaeddais yn ôl o Corea, treuliais bedwar mis cyn gorffen. Pan oedden ni'n dod yn ôl bryd hynny (i'r DU) dydw i byth yn anghofio y 28ain o Mai 1953 oedd hi, ac roedd y Coroni yn dod yn (Y Frenhines Elizabeth yr ail). Roedd yr holl fataliwnau'n cael ‘bull’ ond oherwydd ein bod ni'n cael ein dadfilwrolegig, cawson ni amser hawdd. Roedd y gweddill i gyd yn glanhau ar y llongau, i fynd ar yr orymdaith i'r Frenhines.”*

**Dychwelyd i'r DU a rhyddhau**

Wrth gyrraedd yn ôl ar eu glannau cartref yn Southampton, roedd Bernard, a'r bechgyn o Lanelli yr oedd wedi ymuno â, yn edrych ymlaen at ddychwelyd i Gymru. Roedden nhw i gyd yn barod i gael eu rhyddhau, ar ôl cwblhau dwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol.

*“Cafodd pawb eu rhyddhau ar yr un pryd.”*

Roedd dychwelyd adref i ddiogelwch Llanelli yn ddigwyddiad croesawgar ac yn amser i edrych ymlaen...

*“Roedd yn rhyddhad mawr, ie. Roedd yn braf dychwelyd. Aethon ni i farics Maendy ond oherwydd y Coroni ac achos bod gennym ni absenoldeb yn dod lan, dywedon nhw wrthym ni am symud a dod yn ôl mewn cwpl o ddiwrnodau. Fe wnaethon nhw adael i ni fynd wedyn.”*

Nododd hyn ddiwedd dwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol i Bernard.




Y ddwy fedal a ddyfarnwyd i Bernard yn Busan, De Corea ar 9 Tachwedd 1952

Ar y chwith medal y Frenhines Corea ac ar y dde medal y Cenhedloedd Unedig am wasanaeth yng Nghorea.

Mae'r adroddiad naratif hwn o Wasanaeth Cenedlaethol, ynghyd â ffotograffau, i'w gael yng nghasgliad Gwasanaeth Cenedlaethol Bernard Phillips yn Archif Cyn-filwyr Gorllewin Cymru, gwefan Casgliad y Werin Cymru..

Mae pob hawl, gan gynnwys hawliau cyhoeddi i'r erthygl hon, yn perthyn i Bernard Phillips, neu ei fuddiolwr uniongyrchol pe bai'n marw.

Mae hawliau cyhoeddi i ddeunydd gafodd eu defnyddio i gwblhau'r ddogfen hon yn aros gyda'r cyhoeddwr gwreiddiol. Rydym yn diolchgar iawn i'r ffynonellau gwybodaeth canlynol a helpodd adeilaudau stori hon:

- en.wikipedia.org
- www.worthpoint.com
- sharpnessssc.co.uk
- National Army Museum
- Imperial war museum
- @phhistorystuff/youtubechannel
- Koreanwaronline.com

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales
www.casgliadywerin.cymru
www.peoplescollection.wales

Dyfed
age Cymru